Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Glan Conwy

**Y Caban**
**Ysgol Glan Conwy**
**Glan Conwy**
**LL28 5ST**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Feithrin Glan Conwy

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ysgol Feithrin Glan Conwy |
| Categori'r gofal a ddarperir | Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Eifiona Price Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Eifiona Price Williams |
| Person â gofal | Annette Watson |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2- 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 23 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 14 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 - 11:00 (dydd Llun i ddydd Gwener)<br>11:30 - 14:45 (dydd Llun i ddydd Gwener) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg, ac yn arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.' |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 27/05/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/04/2023 |
| Symudodd y lleoliad i adeilad pwrpasol ym mis Gorffennaf 2022. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cynyddol am gyfnodau hirach o chwarae a dysgu'n annibynnol

A2 Datblygu prosesau asesu yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu cyfnod yn Ysgol Feithrin Glan Conwy. Maent yn hyderus wrth ddewis adnoddau ac yn symud o un ardal ddysgu i'r llall. Mae ychydig o blant, nad ydynt yn barod i ymuno ag amser cylch, yn dewis chwarae'n annibynnol. Yn ystod y sesiwn chwarae'n annibynnol, mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis chwarae yn yr awyr agored tra bod plant eraill yn dewis chwarae â bwyd go iawn yn ardal y siop dan do. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain ac yn teimlo bod ymarferwyr yn gwrando arnyn nhw. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau cyfleoedd i gael dweud eu dweud ynglŷn â beth maen nhw eisiau ei ddysgu. Maent yn mynegi eu hunain yn briodol gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd, er enghraifft wrth ofyn am fwy o laeth. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob un o'r plant yn dewis eu hoff ddiodydd a bwydydd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu oddi wrth rieni a gofalwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfarch ymarferwyr yn hapus â gwên neu gwtsh, ac yn codi llaw arnynt yn frwd ar eu ffordd adre. Mae bron pob un o'r plant yn fodlon a hapus. Mae ganddynt berthnasoedd agos ag ymarferwyr ac yn troi atynt am gysur a chymorth pan fydd angen.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhannu adnoddau'n hyderus â'u ffrindiau. Er enghraifft, maent yn rhannu siswrn, ac yn cymryd eu tro wrth dorri perlysiau. Mae llawer o blant yn dangos parch a moesau da. Maent yn aros am eu tro yn amyneddgar i olchi eu dwylo cyn amser byrbryd, ac yn dweud 'plîs' a 'diolch', gydag ychydig o anogaeth.

Mae bron pob un o'r plant yn frwdfrydig, yn mwynhau eu cyfleoedd dysgu ac yn llawn cyffro wrth archwilio'r gwahanol ardaloedd yn y lleoliad. Maent yn cymryd rhan yn frwd mewn helfa trychfilod bach, gan archwilio'r ardal a dod o hyd i bryfed fel buchod coch cwta. Maent yn mwynhau'r sesiynau cerddoriaeth a symud yn fawr, gan bwffian chwerthin a gwenu wrth i'r gerddoriaeth fynd yn gyflymach ac yn gyflymach. Mae ychydig o blant yn ymgymryd â chreu marciau ac yn creu siapiau ar y bwrdd gwyn yn llwyddiannus. Mae llawer o blant yn cynnal diddordeb ac yn datrys problemau am gyfnod amser priodol. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu ramp gan ddefnyddio tiwbiau a fframiau plastig, gan newid y tiwbiau i wneud iddyn nhw ffitio. Mae llawer o blant yn mwynhau gweithgareddau adnabod lliwiau a siapiau, cyfrif, canu caneuon ac amser stori. Mae llawer o blant yn canolbwyntio'n dda. Er enghraifft, mae ychydig o blant yn ymgolli mewn peintio boncyffion coed â dŵr, tra bod plant eraill yn cyfrif graean i mewn i'r tryciau tegan wrth iddynt eu llwytho â rhawiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth priodol yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio'r toiled yn annibynnol, ac mae llawer ohonynt yn gwisgo'u cotiau eu hunain i chwarae y tu allan. Mae llawer o blant yn arllwys eu diodydd eu hunain yn annibynnol ac yn defnyddio llwyau'n fedrus wrth fwyta grawnfwyd. Mae llawer o blant yn helpu tacluso adnoddau, gan nodi'n ofalus i ble mae eitemau'n perthyn a'u rhoi yn y droriau neu'r blychau cywir.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae medrau personol a chymdeithasol plant yn datblygu'n dda. Mae hyn yn eu galluogi i ryngweithio'n aeddfed a datblygu ystod o fedrau wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae yn ardal chwarae rôl y caffi a'r siop, maent yn defnyddio eu medrau rhifedd, llythrennedd a chreadigol yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i ymgolli wrth gymryd arnynt eu bod yn gwsmeriaid a siopwyr yn realistig iawn.

Maent yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda i bwyso llysiau a chyfrif darnau arian i dalu am eitemau. Mae hyn yn eu helpu i ddeall sut mae clorian yn gweithio a sut i ddefnyddio arian. Mae llawer o blant yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn briodol i ysgrifennu a cheisio darllen rhestrau siopa. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall diben ysgrifennu ac yn datblygu eu hyder i roi cynnig ar ddarllen ac ysgrifennu drostynt eu hunain.

Mae ychydig o blant yn meddwl am ffyrdd eraill o ddatrys problemau. Er enghraifft, maent yn penderfynu bod angen cacennau arnynt i'w gwerthu yn y caffi, ac yn mynd i'r ardal toes chwarae i greu cacennau toes chwarae. Mae medrau corfforol a chreadigol y rhan fwyaf o blant yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cacennau cwpan manwl a deniadol o does chwarae. Tra byddant yn yr ardal toes chwarae, mae plant yn defnyddio eu medrau mathemategol yn dda i ddisgrifio siâp a maint y cacennau sydd eu hangen. Maent yn datblygu hyder ac yn arbrofi â sut y defnyddir iaith. Er enghraifft, pan fyddant yn amau bod ymarferydd wedi gadael y siop heb dalu, maent yn defnyddio iaith bendant yn effeithiol i'w atgoffa bod angen iddo dalu am y cacennau.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau defnyddio cloddwyr i symud cerrig mân a chreu pontydd o blanciau a chretiau llaeth. Mae hyn yn datblygu eu medrau cydsymud a balansio yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau canu caneuon Cymraeg yn ystod amser carped ac yn dechrau defnyddio geiriau ac ymadroddion syml. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn adrodd dyddiau'r wythnos yn gywir. Mae ychydig o blant hŷn yn meddu ar fedrau Cymraeg da. Er enghraifft, maent yn canu rhigymau fel 'Mi welais Jac y Do' yn ddigymell wrth chwarae â phyped jac-y-do.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio camera digidol i dynnu lluniau o bryfed i ddangos i'w ffrind, ac yn arbrofi â sgrin gyffwrdd fawr i archwilio sut caiff swyddogaethau eu defnyddio i greu llun.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch yn effeithiol. Mae bron pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn brydlon. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr i ddiogelu iechyd a diogelwch plant yn bwrpasol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu, ac mae pob un ohonynt yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n dda ac yn glynu at y

cymarebau cywir. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid da, yn golchi dwylo, ac yn gwisgo dillad amddiffynnol priodol i baratoi a gweini bwydydd. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, gan gynnwys ffrwythau ffres, grawnfwyd, llaeth, a dŵr. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o anghenion dietegol plant unigol, ac yn darparu ar eu cyfer yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn briodol ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant fod yn egnïol a datblygu eu medrau. Mae ymarferwyr yn darparu negeseuon cyson am bwysigrwydd chwarae'n ddiogel i sicrhau nad yw plant yn brifo'u hunain wrth chwarae ac arbrofi, er enghraifft wrth archwilio gwahanol ffyrdd o ddefnyddio llithren.

Mae gan ymarferwyr berthnasoedd agos â phlant, ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn eistedd ar lefel y plant ar gyfer trafodaethau a rhyngweithio yn ystod cyfleoedd chwarae rôl a dysgu. Mae ymarferwyr yn annog plant i rannu profiadau, gan wella hyder plant a'u synnwyr o gyflawniad. Er enghraifft, maent yn dangos cyffro mawr pan fydd plant yn dweud wrthynt yn ddigymell eu bod wedi dod o hyd i fuchod coch cwta yn yr ardd neu'n esbonio ble maen nhw wedi bod ar eu trip siopa. Mae ymarferwyr yn dilyn y polisi rheoli ymddygiad yn effeithiol. Maent yn canmol plant am wneud pethau'n annibynnol, fel llenwi'r tegell chwarae rôl â dŵr, a rhoi adnoddau o'r neilltu yn y blychau cywir yn reddfol, gan ddweud "Da iawn" a "Well done". Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn dangos sensitifrwydd tuag atynt. Er enghraifft, pan na fydd plant eisiau ymuno â gweithgareddau grŵp, maent yn eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain, ac mae ymarferwyr yn ymyrryd yn eu chwarae yn sensitif.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dysgu a datblygiad plant yn dda. Maent yn annog plant i nodi trychfilod bach trwy ddefnyddio cardiau lluniau. Maent yn ymestyn eu dysgu trwy ofyn cwestiynau am y ffordd y mae lindys yn datblygu i fod yn löynnod byw. Mae'r lleoliad yn dilyn amserlen ddyddiol briodol o weithgareddau, ond mae'r strwythur hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer dysgu wedi'i arwain gan y plentyn ar adegau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda ar gyfer plant sydd efallai ag anghenion dysgu penodol. Maent yn creu cynlluniau sy'n nodi cynnydd plentyn ac yn canolbwyntio ar y camau nesaf, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn fyfyriol ac yn gwneud newidiadau i'w prosesau cynllunio i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn ymateb i syniadau plant ac yn darparu ystod amrywiol o weithgareddau difyr y mae plant yn eu mwynhau.

Pan mae'r amserlen yn amlygu cyfleoedd ar gyfer chwarae, mae ymarferwyr yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn gwneud awgrymiadau i annog y plant i feddwl drostyn nhw eu hunain. Mae'r dull hwn yn hynod effeithiol o ran datblygu medrau'r plant. Er enghraifft, pan fyddant yn yr ardal chwarae rôl, mae ymarferwyr yn cyfeirio at yr ardal toes chwarae, gan sbarduno'r plant i awgrymu mynd yno i greu'r cacennau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y caffi. Mae hyn yn annog y plant i gymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn datblygu eu gallu i ddatrys problemau yn annibynnol.

Fodd bynnag, mae'r amser a neilltuir i'r arfer hynod effeithiol hon wedi'i gyfyngu gan amserlennu gweithgareddau eraill mwy strwythuredig.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant yn dda. Mae'r addysgu yn sicrhau bod plant yn trin ei gilydd â gofal a pharch, ac mae awyrgylch hapus a gofalgar yn y lleoliad. Er enghraifft, wrth chwilio am chwilod, mae ymarferwyr yn fodelau rôl o ran bod yn ofalgar â'r chwilod, ac mae'r plant yn copïo'r ymddygiad hwn yn naturiol.

Mae gwybodaeth ymarferwyr am ddatblygiad plant yn dda. Maent yn deall sut mae plant yn dysgu ac mae hyn yn eu galluogi i gynllunio gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd sy'n galluogi plant i ailadrodd yr un gweithgaredd dro ar ôl tro. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder a deall sut maent yn uniaethu â'r byd o'u cwmpas.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ac yn darparu adnoddau sy'n datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn dda. Maent yn darparu ardal ddarllen ddeniadol ac yn rhoi cylchgronau a llyfrau mewn gwahanol ardaloedd o'r lleoliad yn bwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau darllen yn naturiol trwy eu chwarae. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn dda ac mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau a chwestiynu i ddatblygu medrau plant mewn cyd-destunau ystyrlon. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gymharu maint gwahanol lysiau.

Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o ymadroddion Cymraeg cyfarwydd wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n dda. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau ar gyfer y plant sy'n eu sbarduno i ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae. Er enghraifft, mae pypedau jac-y-do yn annog plant i ganu rhigymau Cymraeg yn ddigymell. Mae'r lleoliad yn dathlu diwylliant Cymru trwy weithgareddau sy'n gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi, fel gwneud teisennau cri. Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau i ymestyn dealltwriaeth plant o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft darparu sesiynau lle mae'r plant yn profi dawns Indiaidd.

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio gweithgareddau ac adnoddau i ddiwallu anghenion y plant yn dda. Cyn i blant ddechrau yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn y mae'r plant yn mwynhau ei wneud a beth sydd o ddiddordeb iddynt. O ganlyniad, mae plant yn ymgynefino yn y lleoliad yn gyflym. Mae arweinwyr wedi datblygu system gynllunio sy'n ystyried beth mae'r plant yn ymddiddori ynddo, a pha fedrau y mae angen iddynt eu datblygu nesaf. Mae arsylwadau o blant yn bwydo i mewn i'r broses hon yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn parhau i ddatblygu eu gweithdrefnau asesu yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r lleoliad wedi symud i adeilad pwrpasol yn ddiweddar. Mae'n darparu amgylchedd diogel, glân ac ysgogol ar gyfer plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cwblhau rhestrau gwirio diogelwch dyddiol ar gyfer pob ardal, gan gynnwys yr ardal awyr agored. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn cael eu cynnal i safon dda. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg yn ddigonol. Mae gan arweinwyr dystysgrifau diogelwch ac yswiriant boddhaol.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r ystafell a'r ardal awyr agored i ddarparu ardaloedd dysgu trefnus y gall plant eu defnyddio'n annibynnol. Er enghraifft, mae'r ardal chwarae rôl yn hyrwyddo profiadau dysgu trwy gynnig adnoddau bwyd go iawn a chlorian bwyso go iawn. Mae digonedd o le i ymarferwyr arwain gweithgareddau grŵp, gan gynnwys dawns ac amser stori rhyngweithiol. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau plant ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad rheolaidd i'r ardal chwarae yn yr awyr agored. Mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu arbrofol a datblygiad corfforol. Mae ymarferwyr yn arddangos ac yn dathlu gwaith crefft a ffotograffau plant, gan roi ymdeimlad o gyflawniad a pherthyn iddynt.

Mae'r ystod effeithiol o adnoddau ym mhob ardal i gyd o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo'u hannibyniaeth. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fanteisio ar adnoddau yn yr ardal chwarae rôl, helpu eu hunain i greonau a sialciau, adnoddau digidol, ac offer chwarae awyr agored. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau sy'n cefnogi dysgu plant yn dda. Er enghraifft, yn ystod cyfnod codi'r adeilad newydd, darparodd ymarferwyr adnoddau adeiladu fel brics, a alluogodd plant i gopïo'r hyn yr oedd yr adeiladwyr yn ei wneud. Yn ychwanegol, mae yna adnoddau sy'n eu galluogi i falansio ar fyrddau a bod yn greadigol â blychau cardfwrdd. Mae'r adnoddau i gefnogi'r ddealltwriaeth o ddathliadau yn ymestyn chwilfrydedd a dealltwriaeth plant o'r byd, a gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth, fel y bo'n briodol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr yn angerddol a brwdfrydig am waith y lleoliad. Maent wedi arwain y lleoliad yn llwyddiannus trwy gyfnod cyffrous pan maent wedi cael eu cynnwys yn llawn mewn dylunio'r adeilad newydd, a darparu adnoddau ar ei gyfer. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu gan bawb. Mae'r unigolyn cofrestredig yn gweithio'n agos gydag arweinwyr y lleoliad, ac yn darparu lefel dda o her a chymorth. Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos ag ymarferwyr, ac mae pob un ohonynt yn darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar lle mae plant yn teimlo'n gartrefol ac yn gwneud cynnydd da. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn lle hapus i fod.

Mae gan arweinwyr drefniadau sefydledig ac effeithiol ar gyfer nodi cryfderau'r ddarpariaeth a'i meysydd i'w gwella. Maent yn amlygu'r agweddau sydd angen mynd i'r afael â nhw yn y tymor byr, gan wneud diwygiadau i'r ddarpariaeth a'r ffordd y maent yn cefnogi dysgu a chwarae'r plant. Hefyd, mae ganddynt weledigaeth am sut yr hoffent ddatblygu'r ddarpariaeth yn y tymor hwy.

Mae arweinwyr bob amser yn agored i awgrymiadau ynghylch beth i'w wella, ac mae ganddynt bartneriaethau cryf sy'n galluogi gwneud gwelliannau yn gyflym. Er enghraifft, yn sgil cysylltiadau cryf â ffermwyr lleol, galluogwyd i welliannau i'r ffens derfyn gael eu cwblhau cyn gynted ag y cafodd risg ei nodi.

Mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau'n dda. Mae ganddynt gynlluniau cryf ar waith i sicrhau cynaliadwyedd y lleoliad. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir. Mae prosesau rheoli perfformiad yn briodol. Caiff ymarferwyr gyfleoedd da i fynychu ystod o hyfforddiant a chymhwyso'u dysgu yn llwyddiannus, er enghraifft gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion

ychwanegol. Mae arweinwyr yn hwyluso cyfarfodydd cynllunio wythnosol sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu cynnwys yn llawn mewn cynllunio a gwelliant.

Mae partneriaeth y lleoliad â rhieni a gofalwyr yn dda. Mae ymarferwyr yn treulio amser yn dod i adnabod y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, ac yn defnyddio diddordebau'r plant i sicrhau eu bod yn ymgynefino'n hapus. Mae ymarferwyr yn darparu adroddiadau ysgrifenedig ar ddiwedd eu hwythnosau cyntaf yn y lleoliad, ac wrth iddynt adael. Mae hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni ar yr hyn y gall eu plentyn ei wneud yn dda a beth yw eu camau nesaf. Ceir cysylltiadau cryf â'r ysgol gynradd leol, ac mae hyn yn hwyluso cyfnod pontio esmwyth y plant i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu.

Mae arweinwyr yn gweithio'n agos â gwasanaeth ymgynghorol yr awdurdod lleol, y tîm anghenion dysgu ychwanegol ac ystod eang o asiantaethau allanol. O ganlyniad, caiff plant ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo'n dda, ac fe gaiff eu hanghenion eu diwallu'n llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023